# Trallwysiadau y Gellir eu Hosgoi a'r Risgiau – Y Pwysigrwydd o Reoli Anemia: Cwestiynau Cyffredin

**Beth yw'r prosiect anemia cyn-weithredol ?**

Cyhoeddodd y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) Lwybr Anemia Perioperative Cymru Gyfan, sy'n ceisio cefnogi dull safonol o reoli anemia cyn-weithredol ar draws Cymru. Cyn hyn, roedd gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru eu llwybrau eu hunain i roi arweiniad i staff ar baratoi cleifion ag anemia cyn llawdriniaeth. Efallai bod y llwybrau hyn wedi cael eu sefydlu o fewn arbenigeddau gwahanol, gan arwain at amrywiad mewn ymarfer, nid yn unig ar draws Cymru ond hefyd, o fewn Byrddau Iechyd unigol. Nod y prosiect hwn yw helpu Byrddau Iechyd i weithredu Llwybr Cymru Gyfan, neu alinio eu llwybr presennol â llwybr Cymru Gyfan.

**Pam mae'r prosiect hwn mor bwysig?**

*"Dylid ystyried anemia fel cyflwr meddygol difrifol y gellir ei drin, yn hytrach na gwerth labordy annormal yn unig."*[1]

*Bydd tua 35% o gleifion cyn-weithredol yn anemig ar adeg y llawdriniaeth, ac yn dod yn fwy anemig ar ôl llawdriniaeth gan y byddant yn colli gwaed. Yn ogystal, mae anemia fel risg annibynnol yn gyfrifol am 20% o gymhlethdodau llawfeddygol. Mae'r risg hon yn cynyddu pan fydd gan y claf gyflyrau eraill, ochr yn ochr ag anemia*. [2].

Mae'r risgiau hyn yn cynnwys:

- Clwyfau sydd ddim yn gwella'n dda
- Cymryd amser i wella
- Symud yn arafach
- Risg gynyddol o gwympo

Mae llawer o gleifion yn cael diagnosis o anemia yn hwyr yn y llwybr perioperative, sy'n golygu nad oes digon o amser i drin yr anemia cyn llawdriniaeth. O ganlyniad, mae'r cleifion hyn yn aml yn derbyn trallwysiad i baratoi ar gyfer llawdriniaeth. Fodd bynnag, er bod trallwysiad yn achub bywyd i lawer, mae'n cyflwyno ei set ei hun o risgiau, sef [2]:

- Adweithiau i drallwysiad
- Digwyddiadau cardiofasgwlaidd niweidiol
- Canser yn dychwelyd
- Costau ariannol
- Mwy o farwolaethau
- Creu gwrthgyrff mewn menywod a allai fynd yn feichiog yn y dyfodol, gyda'r gwrthgyrff hyn yn gysylltiedig â chlefyd hemolytig y ffetws a'r newydd-anedig, neu gamesgoriadau rheolaidd.

**Gellir adrodd trallwysiadau y gellir eu hosgoi a thrallwysiadau amhriodol, gan gynnwys y rhai i drin diffygion hematinig, i gynllun Gwyliadwriaeth Peryglon Difrifol Trallwysiad Gwaed (ShoT) [3]. Mae rheoli anemia yn briodol a gwneud penderfyniadau trallwyso diogel yn argymhellion allweddol adroddiad SHOT 2022.**

**Sut fydd y prosiect yn cael ei gefnogi?**

Mae'r prosiect yn cael ei hwyluso gan dîm y prosiect anemia, sydd wedi'u lleoli yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru. Mae'r tîm hwn yn cael ei ariannu gyda chefnogaeth rhaglen Gwerth mewn Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru.

Hyd yn hyn, mae'r tîm wedi:

- Cynnal ymweliadau safle neu gyfarfodydd tîm ar draws Cymru i glinigau a chyfleusterau cyn-weithredol , lle mae haearn mewnwythiennol yn cael ei weinyddu, i siarad â'r rhai sy'n gweithio yn y meysydd hyn. Roedd hyn yn gyfle i'r tîm gyflwyno eu hunain fel pwyntiau cyswllt ond hefyd, i gydweithwyr Byrddau Iechyd roi eu barn ar y rhwystrau a'r heriau sy'n eu hwynebu wrth baratoi cleifion anemig cyn y llawdriniaeth.
- Cwblhau adroddiadau adborth yn amlinellu'r prif heriau a nodwyd yn ystod ymweliadau safle
- Gofyn am ddata sylfaenol gan Gofal Iechyd Digidol Cymru (DHCW), fel ffordd o dynnu sylw at yr arfer presennol o ran adnabod, trin a rheoli cleifion anemig yn y llwybr amdriniaethol.
- Cynnal Cyfarfod Cenedlaethol i Randdeiliaid ar 15 Mehefin 2023, lle cyflwynwyd y data sylfaenol. Yn ystod y sesiwn, cafodd nifer o benderfyniadau eu gwneud, a chytunwyd ar gamau gweithredu rhwng y tîm Anemia Cyn-weithredol a chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd. Cliciwch ar y ddolen i gael copi o'r cyflwyniad:




- Datblygu proses i gael mynediad at gyllid a fydd yn parhau i fod ar gael ar ôl i'n prosiect ddod i ben. Cyhoeddi templed achos busnes i ddangos sut y byddai cyllid yn cael ei ddefnyddio, a 'gwerth ychwanegol' yr arian hwnnw i'r gwasanaeth Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli anemia cyn-weithredol .

- Datblygu adroddiadau cydymffurfio unigol ar gyfer pob Bwrdd Iechyd, a'u dosbarthu i Gyfarwyddwyr Meddygol a Chyfarwyddwyr Nyrsio. Mae pob adroddiad yn cynnwys y camau y cytunwyd arnynt o'r cyfarfod i Randdeiliaid, yn ogystal ag argymhellion a chamau gweithredu unigol sy'n ceisio helpu i oresgyn y rhwystrau a nodwyd yn flaenorol.

**Beth yw'r set o brofion ar gyfer 'sgrinio anemia cyn-weithredol '?**

Datblygwyd y set o brofion ar gyfer 'sgrinio anemia cyn-weithredol ' i'w defnyddio o fewn Porth Clinigol Cymru, i ganiatáu i bobl fedru gofyn i gael y set o brofion ar gyfer sgrinio anemia cyn-weithredol . Mae'r set o brofion yn cynnwys yr holl brofion a nodwyd yn Llwybr Anemia Perioperative Cymru Gyfan, fel y set aur o brofion sydd eu hangen i gadarnhau a oes gan glaf anemia oherwydd diffyg haearn, gyda'r budd o fedru archebu profion ychwanegol ar ôl gwneud y profion cyntaf i gadarnhau diagnosis. Y nod o ddatblygu'r set o brofion oedd safoni profion ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru, yn ogystal â symleiddio'r broses o archebu nifer o brofion ar gyfer cydweithwyr cyn-weithredol . Ar hyn o bryd, mae'r broses o weithredu Set o Brofion Cymru Gyfan ar wahanol gamau, ac mae'n cael ei reoli'n lleol ym mhob Bwrdd Iechyd.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y rhaglen anemia cyn-weithredol neu am weithredu'r set o brofion yn eich Bwrdd Iechyd, cysylltwch â: [WBS.BloodHealthTeam@wales.nhs.uk](mailto:WBS.BloodHealthTeam@wales.nhs.uk)

**I gael mwy o wybodaeth ac adnoddau, defnyddiwch y cod QR hwn:**

**BHNOG Rheoli Anemia**

**Geirdaon**


1. *Network for the Advancement of Patient Blood Management, Haemostasis and Thrombosis (NATA)*
2. *Anaemia in the Perioperative Pathway, Centre for Perioperative Care (CPOC)*